



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

WG55173

Llywodraeth Cymru

Dyfodol addysg drydyddol yng Nghymru: galwad am gyflwyniadau Adroddiad cryno'r dadansoddiad thematig

Awst 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron 2026 ISBN ddigiol **978-1-80853-243-6**

Crynodeb Gweithredol

Mae'r papur cryno hwn yn darparu synthesis disgrifiadol o 76 o ymatebion i'r [Galwad am Gyflwyniadau ar Ddyfodol y System Addysg Drydyddol](#). Mae'n crynhoi barn rhanddeiliaid ar draws y pum maes her, gan dynnu sylw at feysydd o aliniad bras yn y cyflwyniadau, amrywiad yn ôl sector sefydliadau, a thensiynau sydd wedi'u llywio gan dystiolaeth. Mae'r papur hefyd yn disgrifio negeseuon trawsbynciol ar ddilyniant, cymorth i ddysgwyr, pwysau ariannu, darpariaeth hyblyg, cydweithredu, mynediad sy'n seiliedig ar le a gwaith mesur canlyniadau. Fodd bynnag, nid yw'n asesu cyflwyniadau unigol nac yn gwneud argymhellion o'r dystiolaeth.

Ar draws y cyflwyniadau, roedd cyfranogiad yn cael ei fframio nid yn gymaint fel mater o'r niferoedd a gofrestrwyd ac yn fwy fel mater o ddilyniant, cymorth i ddysgwyr a chydilyniant llwybrau. Tynnodd cyflwyniadau sylw at rwystrau sy'n gysylltiedig ag anfantais, trafndiaeth, daearyddiaeth, anghenion dysgu ychwanegol (ADY), lles, cyrhaeddiad blaenorol a chapasiti cyfrwng Cymraeg, a hynny ochr yn ochr â'r galw am lwybrau cliriach ar draws addysg bellach (AB), prentisiaethau, dysgu seiliedig ar waith ac addysg uwch (AU).

Roedd cyflwyniadau hefyd yn dynnu sylw at gymhlethdod cynyddol dysgwyr, gydag anghenion cymorth uwch, cyrhaeddiad blaenorol is mewn llythrennedd a rhifedd, a mwy o gyffredinrwydd o rwystrau sy'n gorgyffwrdd (e.e. ffactorau ariannol, lles, trafndiaeth ac ADY). Disgrifiwyd y rhain yn aml fel rhai sy'n effeithio ar gyfranogiad ac ymgysylltiad parhaus.

Disgrifiwyd pwysau ariannu fel rhai sy'n effeithio ar ddysgwyr a darparwyr. Roedd cyflwyniadau yn cysylltu costau dysgwyr â llai o gyfranogiad, cadw ac ymgysylltiad gwannach. Roedd cyflwyniadau'n disgrifio pwysau ariannol fel rhai sy'n effeithio ar ddichonoldeb cynnal ehangder pynciau, darpariaeth cost uchel, dysgu cymunedol, cyflenwi drwy gyfrwng y Gymraeg, gallu ymchwil a'r cwrpas ar gyfer cydweithredu.

Roedd cyflwyniadau yn aml yn cefnogi effeithlonrwydd a chyflenwi ar y cyd, lle mae'r rhain yn diogelu ansawdd a mynediad, ond rhybuddiodd y gallai gostyngiadau pellach mewn cyllid neu effeithlonrwydd gorfodol effeithio ar ddarpariaeth, staffio ac ehangder y cwrwllwm.

Roedd cyflwyniadau'n disgrifio pwysau demograffig, technolegol ac economaidd fel rhai sy'n gofyn am fwy o hyblygrwydd yn y system. Codwyd dysgu oedolion, darpariaeth fodiwlaid, astudio rhan-amser, llwybrau seiliedig ar waith ac ailsgilio dro ar ôl tro, ond roedd cyflwyniadau'n dadlau'n aml fod systemau cyllid, rheoleiddio a data yn parhau i adlewyrchu modelau llawnamser mwy llinol. Roedd rhai cyflwyniadau hefyd yn pwysleisio rôl darpariaeth gymunedol a cham cyntaf, yn enwedig wrth gefnogi dysgwyr nad ydynt yn barod eto am addysg ffurfiol ac sydd angen llwybrau dilyniant graddol i'r system ehangach.

Cyflwynwyd cystadleuaeth a chydweithrediad fel tensiwn strwythurol rheolaidd. Roedd cyflwyniadau'n gwerthfawrogi cydweithio ar gyfer dilyniant, mynediad, darpariaeth arbenigol ac aliniad cyflogwyr, ond roeddent yn adrodd am rwystrau gan gynnwys cymhellion ariannu, cymhlethdod llywodraethu, cyfyngiadau rhannu data, pryderon o ran cyfraith cystadleuaeth mewn rhywfaint o dystiolaeth AU, ac amser staff, gallu sefydliadol a medrusrwydd arbenigol cyfyngedig i ddatblygu a chynnal partneriaethau. Ar draws y pum her, roedd cyflwyniadau'n galw am ddata cryfach ar deithiau dysgwyr, dilyniant, canlyniadau, aliniad y farchnad lafur a mynediad rhanbarthol, ochr yn ochr â gwell cynllunio a chydlynw.

Ar draws y cyflwyniadau, roedd cytundeb eang ar bwysigrwydd llwybrau dilyniant cliriach, cefnogaeth gryfach i ddysgwyr, mwy o hyblygrwydd a gwell cydlynw ar draws y system. Fodd bynnag, roedd cyflwyniadau hefyd yn datgelu gwahaniaethau pwysig o ran y pwyslais rhwng sectorau a nifer o densiynau rheolaidd. Roedd y rhain yn cynnwys gwahaniaethau rhwng effeithlonrwydd a mynediad, hyblygrwydd a chydlyniant, ymateboldeb i'r farchnad lafur a gwerth addysgol ehangach, a chystadleuaeth a chydweithio.

Camau i'w Cymrydd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

Manylion cyswll

I gael rhagor o wybodaeth:

Division
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Copiâu Ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Linc i'r dogfennau ymgynghori:

[Dyfodol addysg drydyddol yng Nghymru: 5 her a galwad am gyflwyniadau | LLYW.CYMRU](#)

Cynnwys

Dyfodol addysg drydyddol yng Nghymru: galwad am gyflwyniadau Adroddiad cryno'r dadansoddiad thematig	1
Crynodeb Gweithredol	2
Cynnwys.....	4
1 Diben a chwmpas	5
1.1 Nodyn methodolegol	5
1.2 Allwedd i dagiau sector	6
2 Crynodeb o negeseuon trawsbynciol.....	6
3 Her 1: Cyfranogiad:.....	7
3.1 Yr hyn a ddywedodd y cyflwyniadau wrthym.....	8
3.2 Themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg	9
3.3 Tensiynau wedi'u llywio gan dystiolaeth	9
3.4 Meysydd yn y cyflwyniadau sy'n cyd-fynd yn fras â'i gilydd	10
3.5 Meysydd a awgrymwyd gan ymatebwyr i'w hystyried o ran polisi	10
4 Her 2: Cymunedau a'r economi	11
4.1 Yr hyn a ddywedodd y cyflwyniadau wrthym.....	11
4.2 Themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg	12
4.3 Tensiynau wedi'u llywio gan dystiolaeth	13
4.4 Meysydd yn y cyflwyniadau sy'n cyd-fynd yn fras â'i gilydd	13
4.5 Meysydd a awgrymwyd gan ymatebwyr i'w hystyried o ran polisi	13
5 Her 3: Cynaliadwyedd ariannol.....	14
5.1 Yr hyn a ddywedodd y cyflwyniadau wrthym.....	14
5.2 Themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg	15
5.3 Tensiynau wedi'u llywio gan dystiolaeth	16
5.4 Meysydd yn y cyflwyniadau sy'n cyd-fynd yn fras â'i gilydd	16
5.5 Meysydd a awgrymwyd gan ymatebwyr i'w hystyried o ran polisi	16
6 Her 4: Newid demograffig a pharodrwydd y system	17
6.1 Yr hyn a ddywedodd ymatebwyr wrthym.....	17
6.2 Themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg	18
6.3 Tensiynau wedi'u llywio gan dystiolaeth	19
6.4 Meysydd yn y cyflwyniadau sy'n cyd-fynd yn fras â'i gilydd	19

6.5 Meysydd a awgrymwyd gan ymatebwyr i'w hystyried o ran polisi	19
7 Her 5: Cystadlu a chydweithio	20
7.1 Yr hyn a ddywedodd y cyflwyniadau wrthym	20
7.2 Themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg	21
7.3 Tensiynau wedi'u llywio gan dystiolaeth	22
7.4 Meysydd yn y cyflwyniadau sy'n cyd-fynd yn fras â'i gilydd	22
7.5 Meysydd a awgrymwyd gan ymatebwyr i'w hystyried o ran polisi	22
Atodiadau mewn Dogfen ar Wahân	23

1 Diben a chwmpas

Mae'r adroddiad cryno hwn yn cynnwys y themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg o ymatebion i'r Galwad am Gyflwyniadau ar Ddyfodol y System Addysg Drydyddol. Mae'n cydosod barn rhanddeiliaid, meysydd aliniad, gwahaniaethau yn ôl sector sefydliad ac unrhyw densiynau sy'n berthnasol i bolisi a godwyd mewn cyflwyniadau. Nid yw'n asesu nac yn graddio cyflwyniadau unigol. Nid yw'n gwneud argymhellion polisi. Pan fydd camau gweithredu a awgrymir gan ymatebwyr yn cael eu cynnwys, mae'r rhain yn cael eu cyflwyno fel meysydd a godwyd mewn cyflwyniadau i'w hystyried ymhellach. Dylid darllen y dadansoddiad fel synthesis disgrifiadol o dystiolaeth a gyflwynwyd. Lle bo'n bosibl, caiff cyfraniadau eu tagio gyda'r prif sectorau sefydliad.

1.1 Nodyn methodolegol

Mae'r dadansoddiad yn tynnu ar 76 o gyflwyniadau i'r Galwad am Gyflwyniadau. Defnyddiodd fframwaith dadansoddol cytunedig a llyfr codau a rennir, a oedd wedi'u halinio â'r pum maes her a nodwyd yn yr Alwad am Gyflwyniadau. Ymgwymerodd dadansoddwyr â gwaith codio thematig â llaw, gan ddefnyddio codio samplau dwbl a chysoni i gefnogi cysondeb. Mae'r llyfr codau a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad wedi'i fanylu yn Atodiad C.

Yna cafodd segmentau oedd wedi'u codio eu cydosod yn ôl cod y plentyn a'u hadolygu i nodi themâu dros dro, meysydd o aliniad bras, amrywiad yn ôl y math o ymatebydd, a thensiynau sy'n cael eu llywio gan dystiolaeth. Defnyddiwyd offeryn deallusrwydd artifisial (AI) (Microsoft Co-Pilot) i gefnogi'r gwaith o gydysod tystiolaeth trwy grynhoi cyfeintiau mawr o segmentau a oedd wedi'u codio. Roedd dadansoddwyr dynol yn dal

i fod yn gyfrifol am sicrhau ansawdd, gwirio'r allbynnau yn erbyn y dystiolaeth wedi'i chodio ac am y gwaith dehongli terfynol. Mae'r fethodoleg lawn i'w gweld yn Atodiad D.

1.2 Allwedd i dagiau sector

Label	Ystyr
EI	Cyflogwyr a diwydiant
WBL	Dysgu seiliedig ar waith
FE	Colegau addysg bellach
HE	Sefydliadau addysg uwch
ACL	Dysgu oedolion a chymunedol
RB	Cyrff cynrychioladol, cyrff pwnc a chyrff proffesiynol
SO	Sefydliadau myfyrwyr
TS	Sefydliadau yn y trydydd sector a sefydliadau arbenigol
SCH	Ysgolion
ALI	Awdurdod lleol
REG	Rheoleiddwyr / cyrff ansawdd lle y gellir eu hadnabod

Nodyn: Mae tagiau sector yn nodi'r prif grwpiau ffynhonnell sydd i'w gweld yn y cyflwyniadau, ac nid cyfrifiadau amllder mohonynt. Ar ddiwedd pob canfyddiad, rhestrir cyflwyniadau o sectorau sy'n cyfrannu at y canfyddiad mewn cromfachau.

2 Crynodeb o negeseuon trawsbynciol

2.1 Roedd cyflwyniadau yn mynd y tu hwnt i edrych ar gyfranogiad fel mater cyfrol syml. Ar draws meysydd her, y neges gryfach oedd bod cyfranogiad yn dibynnu ar lwybrau dilyniant cydlynol, cymorth i ddysgwyr, ac argaeledd darpariaeth sy'n cyfateb i fannau cychwyn dysgwyr. Atgyfnerthwyd hyn gan gyflwyniadau sy'n tynnu sylw at gymhlethdod cynyddol y dysgwyr a'r angen am gymorth academiaidd, bugeiliol ac ariannol wedi'i deilwra i gynnal cyfranogiad a dilyniant. (WBL, FE, HE, ACL, RB, SO, TS).

2.2 Ymddangosodd pwysau cyllid a chostau ar draws pob un o'r pum her. Roedd cyflwyniadau'n cysylltu'r pwysau hyn â mynediad i ddysgwyr, cynaliadwyedd

darparwyr, ehangder pynciau, gallu partneriaethau ac ymateboldeb i newid demograffig a thechnolegol (FE, HE, ACL, WBL, RB, SO, TS).

- 2.3 Dywedwyd dro ar ôl tro fod dysgu hyblyg, rhan-amser, modiwlaid a dysgu seiliedig ar waith yn angenrheidiol ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion, dysgwyr cyflogedig, a'r rhai sy'n dychwelyd i addysg. Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos pryder bod modelau cyllido a rheoleiddio cyfredol yn dal i ffafrio darpariaeth fwy llinol, llawn amser (WBL, ACL, HE, RB, SO).
- 2.4 Roedd cydweithio'n cael ei werthfawrogi'n eang, ond roedd cyflwyniadau yn nodi'n aml ei fod yn anodd ei gyflawni o fewn y trefniadau cyllid, atebolwydd a rhannu data cyfredol. Roedd y rhwystrau a adroddwyd yn cynnwys cymhellion ariannu, fframweithiau atebolwydd, cyfyngiadau rhannu data, staff cyfyngedig a gallu sefydliadol ac, mewn rhywfaint o dystiolaeth AU, pryderon ynghylch cyfraith cystadleuaeth (FE, HE, WBL, ACL, RB, SCH, TS).
- 2.5 Mae lle yn bwysig. Roedd cyflwyniadau yn cysylltu dysgwyr gwledig, ôl-ddiwydiannol a llai symudol â rhwystrau trafnidiaeth a bylchau mynediad lleol, yn enwedig lle mae'r ddarpariaeth wedi'i chrynhof mewn llai o leoliadau neu ymhellach o ble mae dysgwyr yn byw. Codwyd pryderon tebyg am ddarpariaeth pynciau cyfrwng Cymraeg, ADY arbenigol, a phynciau cost uchel. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd parhaus darpariaeth hygyrch a chymunedol yn lleol, yn enwedig i oedolion a dysgwyr llai symudol, a hynny fel pwynt mynediad a llwybr dilyniant. (ACL, LA, TS, SCH, RB, WBL).
- 2.6 Roedd cyflwyniadau'n cefnogi aliniad agosach ag anghenion y farchnad lafur, ond rhybuddodd llawer yn erbyn defnyddio mesurau canlyniadau cul. Ystyriwyd bod data enillion a chyflogaeth yn ddefnyddiol ond yn annigonol heb fesurau dilyniant, ansawdd swyddi, cadw'n rhanbarthol, gwerth cyhoeddus, llesiant a chyfraniad cymdeithasol. Roedd rhai cyflwyniadau yn pwysleisio pwysigrwydd cydnabod canlyniadau o ran y pellter teithio a dilyniant, yn enwedig i ddysgwyr sy'n mynd i mewn ar lefelau is neu drwy lwybrau dysgu oedolion (EI, WBL, HE, RB, SO, TS, ACL).
- 2.7 Cafodd Deallusrwydd Artiffisial (DA) a newid digidol eu fframio fel cyfleoedd ar gyfer dysgu, cynllunio ac effeithlonrwydd, ond nid fel arbedion syml. Roedd cyflwyniadau'n codi risgiau ynghylch allgáu digidol, uniondeb asesu, galluogrwydd staff, llywodraethu data, a'r angen am ganllawiau cenedlaethol (WBL, FE, HE, RB, SO, TS, SCH).

3 Her 1: Cyfranogiad:

3.1 Yr hyn a ddywedodd y cyflwyniadau wrthym

Roedd cyflwyniadau'n aml yn fframio cyfranogiad fel rhywbeth sy'n cael ei lunio gan lwybrau dilyniant, cymorth i ddysgwyr a rhwystrau i fynediad, yn hytrach na lefelau cofrestru yn unig. Pryder a nodwyd yn fynych oedd y gall rhai dysgwyr ddechrau ar lwybrau lefel is heb gynnydd clir, yn enwedig dilyniant o Lefel 2 i 3 ac o Lefel 3 i Lefel 4/5 neu lwybrau lefel uwch eraill. Roedd cyflwyniadau hefyd yn tynnu sylw at nifer cynyddol o ddysgwyr sy'n dod i mewn gyda chyrhaeddiad blaenorol is mewn llythrennedd a rhifedd, ochr yn ochr ag anghenion cymorth mwy cymhleth, gan gynnwys gofynion iechyd meddwl, diogelu a lles (WBL, FE, HE, RB, SO).

Roedd rhwystrau rhag mynediad yn gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol, daearyddiaeth, trafnidiaeth, ADY, anghenion llesiant, cyrhaeddiad blaenorol is a hanes addysg yr amharwyd arnynt. Nodwyd yn aml fod y materion hyn yn gronnus, a bod profiad cyn-16 yn effeithio ar ddewisiadau ôl-16 a pharodrwydd i gymryd rhan mewn dysgu ôl-16, ei gynnal a symud ymlaen ynddo. (FE, ACL, RB, SO, TS, SCH, LA).

Disgrifiwyd llwybrau hyblyg, llwybrau ar gyfer oedolion, llwybrau rhan-amser a'r rhai sy'n seiliedig ar waith fel cryfderau pwysig, yn enwedig i ddysgwyr sy'n cydbwyso astudio â chyfrifoldebau gwaith neu ofal, ac i'r rhai sydd angen ail-fynediad graddol trwy ddarpariaeth gymunedol neu gam cyntaf. (WBL, HE, ACL, RB, SO).

Codwyd cyfranogiad cyfrwng Cymraeg fel mater sy'n ymwneud â llwybr a chapasiti. Mae'r cyflwyniadau'n tynnu sylw at brinder staff, llwybrau galwedigaethol a chyfrwng Cymraeg lefel uwch cyfyngedig, argaeledd rhanbarthol anwastad a pharhad gwan o'r ysgol i addysg drydyddol. Roedd y cyflwyniadau hefyd yn pwysleisio capasiti'r gweithlu a heriau recriwtio fel cyfyngiadau allweddol ar ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. (ACL, RB, SO, TS, SCH).

Rhoddodd cyflwyniadau darparwyr, myfyrwyr a rhai o'r trydydd sector fwy o fanylion am ADY, lles, hyder isel a rhwystrau ymarferol. Rhoddodd cyflwyniadau gan sefydliadau sy'n ymwneud ,a chyflogwyr a darparwyr fwy o bwyslais ar aliniad y farchnad lafur, tra bod sylwadau ar dargedau cyfranogiad wedi'u codi gan grŵp culach ac yn canolbwyntio'n bennaf ar sut y dylai mesurau yn y dyfodol adlewyrchu dilyniant, amrywiaeth dysgwyr a pherthnasedd cyflogaeth.

Dyma rai o'r uchafbwyntiau allweddol a welwyd ar draws y cyflwyniadau:

"Mae angen canolbwyntio ar sicrhau bod llwybrau yn cael eu mynegi'n glir, yn cael eu deall yn dda gan ddysgwyr, a'u bod yn cael eu cefnogi gan lwybrau dilyniant cryf a chefnogaeth i ddysgwyr" Cyfrannwr o Reoleiddwyr a Chyrff Cyhoeddus

"... gall trafnidiaeth fod yn rhwystr sylweddol i gael mynediad at addysg ar bob oedran, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig" Cyfrannwr o Awdurdod Lleol

, “... nifer cynyddol o ddysgwyr ag ADY ac anghenion mwy cymhleth sy'n symud ymlaen i AB, yn enwedig ar Lefel 2 ac is” Cyfrannwr gan Reoleiddwyr a Chyrrff Cyhoeddus

3.2 Themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg

- **Dilyniant a chydlyniant llwybrau:** mae angen llwybrau cliriach ar draws AB, dysgu seiliedig ar waith, prentisiaethau ac addysg uwch, yn enwedig ar bwyntiau pontio allweddol rhwng Lefel 2 a Lefel 3, a rhwng Lefel 3 a Lefel 4-5 gyda phwyslais arbennig ar well canllawiau a chefnogaeth ar gyfer pontio, gan gynnwys prentisiaethau a llwybrau lefel uwch (WBL, AB, AU, RB).
- **Anghydraddoldebau cyfranogiad:** mae mynediad yn cael ei lunio gan anfantais, gwledigrwydd, trafnidiaeth, ADY, llesiant, hyder a chyrhaeddiad blaenorol, gan gynnwys cymhlethdod cynyddol dysgwyr, cyrhaeddiad is wrth ymuno ac anghenion cymorth sy'n gorgyffwrdd (ACL, SO, TS, SCH, LA, RB).
- **Cyfranogiad hyblyg ac aflinol:** mae llwybrau rhan-amser, llwybrau i oedolion, llwybrau sy'n seiliedig ar waith ac ail-fynediad yn cael eu gwerthfawrogi, ond nid ydynt bob amser yn cael eu cefnogi'n llawn gan ddyluniad y system, gan gynnwys llwybrau mynediad yn y gymuned a dilyniant fesul cam i ddarpariaeth ffurfiol (WBL, HE, ACL, RB, SO).
- **Parhad addysg cyfrwng Cymraeg:** mae bylchau o ran capasiti ac adnoddau yn effeithio ar ddewis dysgwyr, llwybrau galwedigaethol a phiblinellau'r gweithlu (ACL, RB, SO, TS, SCH).
- **Uchelgais y system gyfranogiad a pherthnasedd cyflogaeth:** roedd cyflwyniadau yn cefnogi uchelgais y system ar gyfer cyfranogiad a sgiliau uwch, a'r graddau y mae llwybrau cyfranogiad yn cysylltu â chyfleoedd cyflogaeth perthnasol, ond rhybuddiodd y dylai mesurau adlewyrchu dilyniant, amrywiaeth dysgwyr ac argaeledd cyfleoedd cyflogaeth perthnasol (EI, WBL, RB, SO, TS).

3.3 Tensiynau wedi'u llywio gan dystiolaeth

- **Cyfranogiad yn erbyn dwysedd cymorth:** mae ehangu cyfranogiad yn cynyddu amrywiaeth a chymhlethdod anghenion dysgwyr, ac mae angen cefnogaeth fwy dwys nad yw'n cael ei hadlewyrchu'n llawn yn nyluniad y system gyfredol.
- **Mynediad yn erbyn dilyniant ystyrlon:** efallai na fydd cynyddu mynediad yn gwella canlyniadau os nad yw llwybrau yn arwain at gynnydd.
- **Hyblygrwydd yn erbyn cydlyniant:** mae llwybrau aflinol yn gwella mynediad, ond mae llwybrau yn aml yn gymhleth ac yn anoddach i ddysgwyr eu llywio.
- **Targedau yn erbyn ymatebolrwydd i anghenion dysgwyr a galw lleol:** gall targedau cyfranogiad ganolbwyntio sylw, ond mae perygl y byddant yn annog

ticio blychau neu leihau hyblygrwydd o ran y ffordd y mae'r ddarpariaeth yn cael ei chyflwyno.

- **Uchelgais cyfrwng Cymraeg yn erbyn capasiti cyflenwi:** mae ehangu cyfranogiad cyfrwng Cymraeg yn dibynnu ar ddewis dysgwyr, capasiti staff, adnoddau, parhad ar draws llwybrau ac argaeledd cymwysterau.

3.4 Meysydd yn y cyflwyniadau sy'n cyd-fynd yn fras â'i gilydd

- Dylid blaenoriaethu dilyniant ochr yn ochr â chyfeintiau cyfranogiad.
- Mae darpariaeth Mynediad, Lefel 1 a Lefel 2 yn parhau i fod yn bwysig ar gyfer ail-ymgysylltu a dysgwyr dan anfantais.
- Dylid diogelu llwybrau hyblyg, llwybrau rhan-amser, llwybrau i oedolion a llwybrau sy'n seiliedig ar waith fel rhan o gynnig system Cymru.
- Mae angen gwybodaeth, cyngor ac arweiniad cliriach ar ddysgwyr ar draws opsiynau academiaidd, galwedigaethol a'r rhai sy'n seiliedig ar waith.
- Dylai polisi cyfranogiad ystyried rhwystrau economaidd-gymdeithasol, daearyddol a chymorth i ddysgwyr.
- Dangosodd cyflwyniadau aliniad ar:
 - pwysigrwydd cyfranogiad mewn AU fel rhan o ddilyniant ehangach dysgwyr.
 - Dylai cyfranogiad ganolbwyntio ar ddilyniant a chanlyniadau (nid mynediad yn unig).
 - Gwerth llwybrau amrywiol i mewn i AU
 - Pwysigrwydd parhaus cyfranogiad mewn AU (gan gynnwys yn 18 oed)
- Fodd bynnag, roedd amrywiaeth yn y safbwyntiau ar y canlynol:
 - rôl targedau cyfranogiad
 - y cydbwysedd rhwng AU a llwybrau eraill
 - y graddau mai AU yw'r llwybr mwyaf priodol i bob dysgwr

3.5 Meysydd a awgrymwyd gan ymatebwyr i'w hystyried o ran polisi

- Datblygu fframweithiau dilyniant cliriach ar draws AB, dysgu sy'n seiliedig ar waith, prentisiaethau ac AU.
- Diogelu llwybrau sylfaen, llwybrau mynediad, llwybrau sy'n meithrin hyder a llwybrau cyn-brentisiaeth.
- Cryfhau cymorth ariannol, trafndiaeth, gofal plant, ADY a bugeiliol lle mae'r rhain yn effeithio ar gyfranogiad.
- Gwella canllawiau ynghylch llwybrau, gan gynnwys gwybodaeth ddiduedd ar lwybrau galwedigaethol, academiaidd a'r rhai sy'n seiliedig ar waith.
- Buddsoddi mewn staff cyfrwng Cymraeg, adnoddau dwyieithog a pharhad o'r ysgol i lwybrau trydyddol.

- Sicrhau bod mesurau cyfranogiad yn cyd-fynd â dilyniant, cwblhau a chanlyniadau dysgwyr, fel bod cyfranogiad yn cael ei ddeall yn nhermau dilyniant a llwyddiant dysgwyr yn hytrach na chyfeintiau ymgofrestru yn unig.

4 Her 2: Cymunedau a'r economi

4.1 Yr hyn a ddywedodd y cyflwyniadau wrthym

Yn gyffredin, roedd cyflwyniadau'n cysylltu addysg drydyddol â gallu'r gweithlu, economïau rhanbarthol, ymchwil a chanlyniadau cymunedol. Y neges gliriaf a rannwyd oedd yr angen i alinio'r ddarpariaeth yn agosach â galw cyflogwyr, blaenoriaethau rhanbarthol a meysydd prinder, wrth gadw gwerth addysgol a chymdeithasol ehangach – sef cydbwysedd a all fod yn anodd ei gyflawni yn ymarferol, yn ôl cyflwyniadau. Roedd cyflwyniadau hefyd yn pwysleisio rôl AB a dysgu oedolion wrth gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r gweithlu, uwchsgilio, ailsgilio a dilyniant i gyflogaeth, yn enwedig trwy ddarpariaeth ymatebol yn lleol sy'n cyd-fynd ag anghenion sectorol sy'n dod i'r amlwg. (EI, WBL, FE, HE, RB, TS, ACL).

Disgrifiwyd ymchwil ac arloesi, yn enwedig gan AU a chyrrff cynrychioladol, fel asedau economaidd a gwasanaethau cyhoeddus pwysig. Fodd bynnag, nododd cyflwyniadau hefyd gyfyngiadau ariannol, buddsoddiad isel mewn gwaith ymchwil a datblygu (Ymchwil a Datblygu), mynediad anwastad at gyllid yn y DU a gallu cyfyngedig i ddatblygu partneriaethau neu geisiadau (AU, RB, TS, EI).

Ystyriwyd bod arbenigedd a chlystyru rhanbarthol yn fuddiol o bosibl lle maent yn cryfhau ansawdd, arloesi a chysylltiadau â chyflogwyr. Rhybuddiodd cyflwyniadau hefyd y gallai gor-ganolbwyntio leihau mynediad lleol, cyfyngu dewis dysgwyr a gwanhau gwytnwch, yn enwedig ar gyfer dysgwyr llai symudol neu leoedd â llai o ddarparwyr (WBL, FE, HE, RB, TS, SCH).

Cyflwynwyd deallusrwydd artiffisial a newid digidol fel cyfleoedd ar gyfer dysgu personol, gwaith dadansoddi, cynllunio ac effeithlonrwydd. Mae'r cyflwyniadau hefyd yn dangos pryderon dro ar ôl tro am anghydraddoldeb digidol, uniondeb asesu, galluogrwydd staff, llywodraethu data a'r angen am ganllawiau cenedlaethol clir ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial mewn addysg drydyddol. (WBL, HE, FE, RB, SO, TS, SCH).

Roedd cyflwyniadau yn herio mesurau canlyniadau cul. Roedd enillion a chyflogaeth yn cael eu hystyried yn ddefnyddiol ond yn annigonol heb ddata ar ddilyniant, ansawdd swyddi, defnyddio sgiliau, cadw dysgwyr yn rhanbarthol, llesiant, gwerth cymdeithasol, canlyniadau'r Gymraeg a chyfraniad cymunedol. Tynnodd cyflwyniadau sylw hefyd at yr angen i gydnabod dilyniant, y pellter teithio a ffactorau cyd-destunol sy'n effeithio ar ganlyniadau, yn enwedig i ddysgwyr sy'n dod o gefndiroedd difreintiedig neu lwybrau anhraddodiadol. (EI, HE, RB, SO, TS, ACL).

Cyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi oedd fwyaf amlwg mewn cyflwyniadau gan AU a chyrrff cynrychioliadol. Trafodwyd arbenigedd ar draws sectorau, ond gyda phwyslais gwahanol: roedd rhai cyflwyniadau'n canolbwyntio ar effeithlonrwydd, ansawdd ac arloesi, tra bod eraill yn pwysleisio mynediad, gwytnwch a darpariaeth leol. Roedd canlyniadau cymunedol, Cymraeg a gwerth cymdeithasol ehangach i'w gweld yn amlach mewn cyflwyniadau gan y sector dysgu oedolion yn y gymuned, y trydydd sector, cyflwyniadau a fu'n sôn am y Gymraeg a rhywfaint o dystiolaeth gan gyrff cynrychioliadol.

Dyma rai o'r uchafbwyntiau allweddol a welwyd ar draws y cyflwyniadau:

"Mae ymchwil yn hanfodol ar gyfer cynnydd: gwyddonol, cymdeithasol ac economaidd." Cyfrannwr o Gyrff Cynrychioliadol

"... Mae deallusrwydd artiffisial yn cyflwyno cyfleoedd sylweddol ar gyfer trawsnewid addysg drydyddol, ond mae hefyd yn cyflwyno risgiau amgylcheddol, moesegol a systemig sylweddol" Cyfrannwr o'r Trydydd Sector

"Dylid defnyddio data Canlyniadau Graddedigion ochr yn ochr â Chanlyniadau Addysg Hydredol (LEO) i ddarparu mewnwleidiad ychwanegol i ansawdd swyddi, aliniad â chynlluniau gyrfa, natur ystyrlon cyflogaeth, astudiaeth bellach, a hunangyflogaeth" Cyfrannwr o Gyrff Cynrychioliadol

"... datgysylltiad critigol rhwng buddsoddiad diwydiannol rhanbarthol ac ymwybyddiaeth dysgwyr." Cyfrannwr o Addysg Uwch

4.2 Themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg

- **Aliniad y farchnad lafur:** gofynnwyd yn eang am ddefnydd cryfach o fewnbnw cyflogwyr, gwybodaeth sgiliau ranbarthol a thystiolaeth o brinderau (EI, WBL, HE, RB, FE).
- **Capasiti ymchwil ac arloesi:** roedd cyflwyniadau'n cysylltu Ymchwil ac Arloesi â chynhyrchiant, gwasanaethau cyhoeddus, datblygiad a buddsoddiad rhanbarthol, wrth nodi cyfyngiadau ariannu (HE, RB, TS).
- **Arbenigedd gyda dulliau diogelu mynediad:** gall clystyru gefnogi ansawdd ac effaith ond ni ddylai leihau mynediad rhanbarthol nac ehangder darpariaeth (WBL, HE, RB, TS, SCH).
- **Deallusrwydd artiffisial a llywodraethu digidol:** roedd cyflwyniadau am weld canllawiau cenedlaethol, seilwaith, datblygiad staff a dulliau diogelu rhag anghydraddoldeb a chamddefnydd (WBL, HE, FE, RB, SO, TS).
- **Canlyniadau a data ehangach:** gofynnwyd am ddata cysylltiedig, hydredol ac aml-ddimensiwn i ddal teithiau dysgwyr a gwerth cyhoeddus gan gynnwys

cydnabod y pellter teithio a ffactorau cyd-destunol dysgwyr (HE, RB, ACL, SO, TS, EI).

4.3 Tensiynau wedi'u llywio gan dystiolaeth

- **Ymateboldeb yn erbyn ehangder y farchnad lafur:** roedd cyflwyniadau'n cefnogi aliniad cryfach ag anghenion sgiliau cyflogwyr a rhai rhanbarthol, wrth hefyd bwysleisio dewis dysgwyr, sgiliau trosglwyddadwy a gwytnwch hirdymor y system.
- **Arbenigedd yn erbyn mynediad:** gall clystyru wella ansawdd ond mae perygl y caiff cyfleoedd lleol neu ranbarthol ei lleihau.
- **Metrigau economaidd yn erbyn gwerth cymdeithasol:** nid yw data enillion a chyflogaeth yn cipio'r holl ganlyniadau sy'n cael eu gwerthfawrogi gan gyflwyniadau.
- **Arloesi deallusrwydd artiffisial yn erbyn tegwch ac uniondeb:** mae angen mesurau diogelu, buddsoddiad a chymorth staff a dysgwyr ar gyfer mabwysiadu technoleg ddigidol.
- **Cydweithredu yn erbyn cymhellion tameidiog:** er ystyrir yn eang fod cydweithredu yn gwella effeithlonrwydd a chanlyniadau, tynnodd cyflwyniadau sylw at y ffaith y gall systemau cyllid, polisi a data tameidiog greu cymhellion anghyson rhwng darparwyr, cyflogwyr a'r llywodraeth/y system addysg drydyddol.

4.4 Meysydd yn y cyflwyniadau sy'n cyd-fynd yn fras â'i gilydd

- Dylai darpariaeth gael ei llywio'n well gan wybodaeth sgiliau'r farchnad lafur a rhanbarthol.
- Mae ymchwil, arloesi a chyfnewid gwybodaeth yn bwysig i ganlyniadau economaidd a chymdeithasol.
- Dylai mesurau canlyniadau fynd y tu hwnt i enillion yn unig.
- Dylid rheoli mabwysiadu deallusrwydd artiffisial yn ofalus ac yn foesegol.
- Dylai arbenigo fod yn seiliedig ar dystiolaeth a'i gydbwysu yn erbyn mynediad i ddysgwyr.

4.5 Meysydd a awgrymwyd gan ymatebwyr i'w hystyried o ran polisi

- Alinio cymwysterau, prentisiaethau a darpariaeth â thystiolaeth cyflogwyr a gwybodaeth sgiliau ranbarthol, gan gynnwys mewnwleidiad gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol lle bo hynny'n briodol.
- Defnyddio cyllid cyhoeddus i gefnogi ceisiadau cydweithredol, ymchwil gymhwysol drosiannol, prosiectau peilot a mynediad Busnesau Bach a Chanolig (BBaChau) i arloesi.

- Datblygu clystyrau rhwydweithio neu glystyrau sy'n seiliedig ar le sy'n diogelu mynediad wrth leihau dyblygu diangen.
- Creu canllawiau deallusrwydd artiffisial cenedlaethol, cefnogi datblygiad staff a buddsoddi mewn seilwaith digidol a chynhwysiant.
- Cysylltu Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR), Canlyniadau Addysg Hydredol (LEO), yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) a setiau data gweinyddol lle bo hynny'n briodol, gyda mesurau diogelu a chytundebau rhannu data clir.

5 Her 3: Cynaliadwyedd ariannol

5.1 Yr hyn a ddywedodd y cyflwyniadau wrthym

Roedd cyflwyniadau yn codi materion ariannol fel rhai sy'n effeithio ar ddysgwyr, darparwyr, a'r system ehangach. Roedd costau dysgwyr - gan gynnwys trafndiaeth, llety, gofal plant, offer, mynediad digidol, incwm coll a chyflogau prentisiaethau isel - yn gysylltiedig dro ar ôl tro â chyfranogiad, cadw ac ymgysylltu. Nodwyd trafndiaeth yn gyson fel un o'r rhwystrau mwyaf arwyddocaol, ochr yn ochr â phwysau costau byw ehangach sy'n effeithio ar bresenoldeb, dilyniant a gwneud penderfyniadau. (WBL, FE, HE, ACL, SO, TS, RB).

Roedd cynaliadwyedd darparwyr hefyd yn thema bwysig. Roedd cyflwyniadau'n adrodd costau cyflenwi cynyddol, pwysau ariannu mewn termau real, costau carfannau bach, cost uchel darpariaeth Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM) a darpariaeth dechnegol, costau cyflenwi drwy gyfrwng y Gymraeg, pwysau sy'n gysylltiedig â dibyniaeth ar incwm o rai gweithgareddau i gefnogi ymchwil neu ddarpariaeth arall sydd wedi'i thangyllido a bregusrwydd darpariaeth ran-amser a chymunedol. Roedd cyflwyniadau hefyd yn adrodd pwysau'r gweithlu, gan gynnwys heriau recriwtio a chadw a chostau cynyddol sy'n gysylltiedig ag anghenion dysgwyr sy'n fwy cymhleth. Roedd cyflwyniadau hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyfalaf a seilwaith, gan gynnwys systemau digidol, cyfleusterau arbenigol, labordai, amgylcheddau efelychu, ystadau a lleoliadau cymunedol, fel galluogwyr pwysig o ran mynediad ac ansawdd. (HE, FE, ACL, WBL, RB, TS).

Roedd llawer o gyflwyniadau yn cefnogi cydweithio, cyfleusterau a rennir, cyflenwi digidol, a gweinyddu symlach. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn rhybuddio y gallai gostyngiadau cyllid pellach neu effeithlonrwydd gorfodol effeithio ar ansawdd, cymorth, staffio neu ehangder y cwricwlwm (HE, FE, WBL, SO, RB).

Trafodwyd buddsoddiad yn aml o ran canlyniadau, gan gynnwys cyflogaeth, cynhyrchiant, dilyniant, gwerth cymdeithasol, lles, datblygu rhanbarthol a chyfraniad i wasanaethau cyhoeddus. Cafwyd argymhellion gwahanol yn y cyflwyniadau o ran sut y dylid cydbwysu a mesur yr enillion hyn (EI, HE, ACL, RB, TS, SO).

Rhoddodd AU a chyrrff pwnc bwyslais arbennig ar gyllid strwythurol, mynediad at gyllid ymchwil a darpariaeth cost uchel. Roedd cyflwyniadau gan faes Dysgu Oedolion yn y Gymuned a'r trydydd sector yn canolbwyntio mwy ar danariannu, mynediad cymunedol a galw heb ei ddiwallu, tra bod sefydliadau myfyrwyr yn tynnu sylw at galedi, lles ac aflonyddwch ar astudio. Roedd cynigion modelau cyflenwi yn fwy sector-benodol a dylid eu darllen fel opsiynau a adroddwyd yn hytrach nag argymhellion asesu.

Dyma rai o'r uchafbwyntiau allweddol a welwyd ar draws y cyflwyniadau:

"Mae ffioedd, costau teithio, gofal plant ac offer yn parhau i fod yn gyfyngiadau sylweddol ar gyfranogiad" Cyfrannwr o faes Dysgu Oedolion a Chymunedol

"Mae costau trafnidiaeth, costau offer, cyflogau prentisiaethau isel, ac effeithiau ar incwm aelwydydd yn parhau i fod yn rhwystrau sylweddol" Cyfrannwr o faes Dysgu Seiliedig ar Waith

"I lawer o ddysgwyr, felly, gall costau teithio dyddiol gynrychioli baich ariannol sylweddol, yn enwedig i'r rhai o aelwydydd incwm is." Cyfrannwr o Addysg Uwch

5.2 Themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg

- **Fforddiadwyedd i ddysgwyr:** mae pwysau cost yn effeithio ar fynediad, presenoldeb, ymgysylltu, cadw a dilyniant gan nodi costau trafnidiaeth a chostau cyfranogi o ddydd i ddydd fel rhwystrau arbennig o sylweddol (WBL, AB, HE, ACL, SO, TS).
- **Cynaliadwyedd darparwyr:** ystyrir nad yw modelau cyllido yn gyson â chostau cyflenwi mewn darpariaeth cost uchel, arbenigol, cyfrwng Cymraeg, rhan-amser a chymunedol gan gynnwys pwysau sy'n gysylltiedig â recriwtio'r gweithlu, cymhlethdod dysgwyr a chostau gweithredol cynyddol (HE, AB, ACL, WBL, RB).
- **Cwmpas cyfyngedig ar gyfer effeithlonrwydd gorfodol pellach:** cefnogwyd gwasanaethau a rennir a chydweithredu, ond roedd cyflwyniadau'n rhybuddio y gallai torri costau pellach effeithio ar ansawdd neu fynediad (HE, FE, WBL, SO, RB).
- **Cyfalf a seilwaith:** roedd systemau digidol, cyfleusterau arbenigol, labordai, efelychu, ystadau a lleoliadau cymunedol wedi'u cysylltu â mynediad ac ansawdd (HE, FE, WBL, ACL, RB, TS).
- **Cyllid sy'n gysylltiedig â chanlyniadau:** Roedd cyflwyniadau eisiau cysylltiadau cryfach ag enillion economaidd a chymdeithasol, tra'n rhybuddio rhag metrigau cul (EI, HE, ACL, RB, TS).

- **Effeithlonrwydd a chyflenwi:** Roedd cyflwyniadau'n tynnu sylw at gynllunio rhanbarthol, cydgrynhoi a darpariaeth a rennir fel mesurau effeithlonrwydd posibl, tra'n rhybuddio rhag effeithiau ar fynediad lleol. (FE, RB).

5.3 Tensiynau wedi'u llywio gan dystiolaeth

- **Cymorth i ddysgwyr yn erbyn cynaliadwyedd sefydliadol:** codwyd y ddau fel elfennau pwysig, ond maent yn tynnu ar yr un amgylchedd cyllido cyfyngedig.
- **Effeithlonrwydd yn erbyn ansawdd a mynediad:** Gall arbedion gorfodol neu ostyngiadau cyllid pellach leihau amser cyswllt, cymorth, staffio neu ehangder y cwricwlwm.
- **Hyblygrwydd yn erbyn cost:** gall darpariaeth fodiwlaid, ran-amser a chymunedol wella mynediad ond gall fod yn drwm o ran adnoddau.
- **Enillion economaidd yn erbyn gwerth cymdeithasol:** roedd ymatebwyr yn gwerthfawrogi canlyniadau cyflogaeth ond hefyd les, cydlyniant a chyfraniad gwasanaethau cyhoeddus.
- **Buddsoddiad cyfalaf yn erbyn sefydlogrwydd refeniw:** mae angen i fuddsoddiad mewn seilwaith fodoli ochr yn ochr â chyllid cyflenwi cynaliadwy.

5.4 Meysydd yn y cyflwyniadau sy'n cyd-fynd yn fras â'i gilydd

- Mae rhwystrau ariannol yn gyfyngiad mawr ar gyfranogiad a chadw.
- Dylai modelau cyllido adlewyrchu costau gwirioneddol gwahanol fathau o ddarpariaeth yn well.
- Byddai cyllid tymor hwy a mwy sefydlog yn gwella cynllunio.
- Gall cydweithredu gefnogi effeithlonrwydd dim ond os bydd yn cael yr adnoddau priodol.
- Dylai penderfyniadau buddsoddi ystyried canlyniadau economaidd a chymdeithasol.

5.5 Meysydd a awgrymwyd gan ymatebwyr i'w hystyried o ran polisi

- Targedu cymorth dysgwyr tuag at drafnidiaeth, cynnal a chadw, gofal plant, offer, mynediad digidol, cyflogau prentisiaid a chymorth lles/iechyd meddwl lle mae'r rhain yn effeithio ar gyfranogiad a chadw.
- Defnyddio setliadau cyllido aml-flwyddyn neu rai mynegrifol lle mae'r rhain yn cefnogi cynllunio a sefydlogrwydd.

- Ehangu mynediad at fuddsoddiad cyfalaf i ddarparwyr sy'n darparu darpariaeth strategol, arbenigol neu ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sy'n anodd eu cyrraedd.
- Cefnogi gwasanaethau a rennir, cyfleusterau a rennir a chyflenwi cydweithredol lle mae hyn yn diogelu ansawdd a mynediad.
- Defnyddio cydnabod dysgu blaenorol a llwybrau dilyniant cliriach i leihau dysgu ailadroddus diangen.
- Targedu cyllid ar gyfer darpariaeth cost uchel, darpariaeth sydd â blaenoriaeth neu flanoriaeth ar gyfer pobl sy'n agored i niwed, gan gynnwys STEM, cyfrwng Cymraeg, sgiliau hanfodol a dysgu cymunedol.

6 Her 4: Newid demograffig a pharodrwydd y system

6.1 Yr hyn a ddywedodd ymatebwyr wrthym

Roedd cyflwyniadau'n disgrifio newid demograffig fel pwysau strwythurol sy'n gofyn am gynnig dysgu gydol oes cryfach, yn hytrach na system sydd wedi'i dylunio'n bennaf gyda dysgwyr ifanc, llawnamser mewn golwg. Roedd carfanau ieuenctid sy'n gostwng, heneiddio'r boblogaeth a newid yn y farchnad lafur yn gysylltiedig â'r galw cynyddol am ddysgu, uwchsgilio ac ailsgilio canol gyrfa i oedolion. Tynnodd cyflwyniadau sylw hefyd at y ffaith nad yw rhai dysgwyr sy'n oedolion yn barod ar unwaith i fynd i mewn i ddarpariaeth ffurfiol a bod angen pwyntiau mynediad cam cyntaf neu bwyntiau mynediad cymunedol hygyrch i'r system. (WBL, FE, HE, ACL, RB, SO).

Tynnodd ymatebwyr sylw at anghysondeb rhwng newid demograffig a'r rheolau cyllid, cymhwysedd a rhaglenni cyfredol. Roedd llwybrau hyblyg, modiwlaid, cyfunol a seiliedig ar waith yn cael eu gwerthfawrogi'n eang, ond roedd cyflwyniadau'n adrodd nad yw'r rhain bob amser yn cael eu cefnogi gan gyllid a rheoleiddio sydd wedi'u cynllunio o amgylch darpariaeth fwy llinol. (WBL, FE, HE, ACL, RB).

Disgrifiwyd yr effeithiau fel rhai sy'n anwastad. Roedd ardaloedd gwledig ac ôl-ddiwydiannol, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a phynciau cost uchel yn cael eu hystyried yn fwy agored i garfannau bach, rhwystrau mynediad a phwysau cynaliadwyedd darparwyr. Nododd rhai cyflwyniadau hefyd y gallai galw 16-18 gynyddu yn y tymor byr cyn gostwng yn y tymor hwy, gan greu ansicrwydd cynllunio ychwanegol (LA, FE, HE, RB, SCH).

Disgrifiwyd proffiliau dysgwyr hefyd fel rhai sy'n dod yn fwy amrywiol, gan gynnwys oedolion sy'n dychwelyd i addysg, dysgwyr cyflogedig, dysgwyr sydd â bylchau sgiliau sylfaenol, dysgwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau o ran trafndiaeth, gofal plant, fforddiadwyedd, neu rwystrau digidol. Heb

gynllunio a chefnogaeth gryfach, roedd cyflwyniadau'n awgrymu y gallai newid demograffig ehangu'r anghydraddoldebau presennol (ACL, FE, HE, TS, SO, LA).

Adroddwyd am anghysondeb cyllido a rheoleiddio fwyaf cyson gan ddarparwyr, cyrff cynrychioliadol a rheoleiddwyr. Roedd yr amrywiad daearyddol wedi'i fanylu fwyaf mewn cyflwyniadau gan awdurdodau lleol, AB a'r rhai a oedd yn seiliedig ar le. Roedd tystiolaeth ar grwpiau dysgwyr penodol, gan gynnwys oedolion y mae angen darpariaeth cam cyntaf, dysgwyr ag ADY a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau ymarferol, i'w gweld yn amlach mewn tystiolaeth a ddaeth i law gan y categori Dysgu Oedolion yn y Gymuned, y trydydd sector ac awdurdodau lleol.

Dyma rai o'r uchafbwyntiau allweddol a welwyd ar draws y cyflwyniadau:

"Heb symudiad bwriadol tuag at system sydd wedi'i dylunio ar gyfer cyfranogiad gydol oes, mae perygl y bydd newid demograffig yn tyfu'n gynt nag addasiad y system" Cyfrannwr o'r categori Dysgu Oedolion yn y Gymuned

"Mae ymgysylltiad QAA â'i aelodaeth ledled y DU yn nodi, er bod diddordeb cryf mewn ehangu'r ddarpariaeth hyblyg a modiwlaid, fod cynnydd yn aml yn cael ei gyfyngu gan y rhwystrau strwythurol hyn ar lefel y system" Cyfrannwr o'r categori Rheoleiddwyr a Chyrff Cyhoeddus

6.2 Themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg

- **Dysgu gydol oes:** Newid o ddarpariaeth sy'n canolbwyntio ar ieuencid i ddysgu oedolion, ailsgilio a chyfranogiad gydol oes (WBL, FE, HE, ACL, RB, REG, SO).
- **Anghysondeb y system:** Mae cyllid, cymhwysedd a dylunio yn dal i ffafrio darpariaeth linellol lawnamser yn hytrach na hyblygrwydd (AB, HE, ACL, RB, REG, LA, WBL).
- **Hyblygrwydd:** Angen am lwybrau modiwlaid, rhan-amser, cyfunol a seiliedig ar waith, gyda modd trosglwyddo credydau a chydabod dysgu blaenorol (WBL, FE, HE, RB, TS, SO).
- **Effeithiau anwastad:** Mae ardaloedd gwledig, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a phynciau cost uchel yn wynebu mwy o bwysau demograffig (LA, AB, HE, RB, ACL).
- **Amrywiaeth dysgwyr:** Mae angen mwy o gymorth cynhwysol, hygyrch a hyblyg oherwydd anghenion dysgwyr sy'n fwy amrywiol, gan gynnwys dysgwyr sydd angen dilyniant graddol, datblygu sgiliau sylfaenol a phwyntiau mynediad hyblyg (ACL, FE, HE, TS, REG, SO).

6.3 Tensiynau wedi'u llywio gan dystiolaeth

- **Mynediad yn erbyn cynaliadwyedd:** rhaid cydbwysu ehangu mynediad â hyfywedd darparwyr, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a darpariaeth cost uchel.
- **Hyblygrwydd yn erbyn dyluniad y system:** mae dulliau cyflwyno modiwlaid a rhan-amser yn cael eu gwerthfawrogi, ond maent yn parhau i gael eu cefnogi'n wael gan gyllid a rheoleiddio.
- **Darpariaeth ieuenctid yn erbyn galw oedolion:** rhaid cydbwysu'r gwaith o amddiffyn darpariaeth 16–18 oed â'r galw cynyddol am ddysgu oedolion ac ailsgilio.
- **Cystadlu yn erbyn cydweithredu:** gall pwysau demograffig ddwysáu cystadleuaeth, tra bod cynnal darpariaeth yn dibynnu fwyfwy ar weithio mewn partneriaeth.
- **Ymateboldeb lleol yn erbyn cydlynu cenedlaethol:** mae hyblygrwydd sy'n seiliedig ar le yn cael ei werthfawrogi, ond mae'n dibynnu ar gyllid, data a chynllunio cenedlaethol cydlynol.

6.4 Meysydd yn y cyflwyniadau sy'n cyd-fynd yn fras â'i gilydd

- Yr angen am system dysgu gydol oes sy'n cefnogi pobl ar draws eu bywydau gwaith, wrth gydnabod addysg oedolion ehangach hefyd lle codwyd hyn mewn cyflwyniadau.
- Cefnogaeth ar gyfer darpariaeth hyblyg a modiwlaid, gan gynnwys llwybrau dysgu rhan-amser a rhai sy'n seiliedig ar waith.
- Pryder am gyllid ac anghysondeb rheoleiddio, yn enwedig lle mae'r rhain yn cyfyngu ar ymateboldeb i newid demograffig.
- Pwysigrwydd sgiliau ac ailsgilio sy'n gysylltiedig â'r gweithlu, wedi'u cysylltu â newid economaidd a newid yn y farchnad lafur.
- Mae proffiliau dysgwyr yn dod yn fwy amrywiol, gan gynnwys oedolion sy'n dychwelyd i addysg, dysgwyr cyflogedig, dysgwyr sydd â bylchau sgiliau sylfaenol, dysgwyr ADY a dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau ymarferol neu rhwystrau cymorth.

6.5 Meysydd a awgrymwyd gan ymatebwyr i'w hystyried o ran polisi

- Ehangu ac addasu dysgu modiwlaid ac y gellir ei bentyrru, gan gynnwys micro-credydau a systemau sy'n seiliedig ar gredydau i gefnogi dilynant aflinol.

- Diwygio modelau cyllido i gefnogi darpariaeth ran-amser, darpariaeth gymunedol a darpariaeth hyblyg yn well, gan gynnwys cyllid aml-flwyddyn a llai o ragfarn tuag at lwybrau llawnamser.
- Cryfhau cydnabod dysgu blaenorol a throsglwyddo credydau, gan alluogi symud ar draws darparwyr a lefelau.
- Aliniad agosach â galw'r farchnad lafur, gan gynnwys ymgysylltu â chyflogwyr, cynllunio yn ôl sector, a gwybodaeth anghenion sgiliau amser real.
- Datblygu darpariaeth gymunedol a darpariaeth sy'n seiliedig ar le, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig neu ddifreintiedig, i wella hygyrchedd.
- Gwell cydlynw ar draws AB, AU, a dysgu seiliedig ar waith, gan gynnwys llwybrau dilyniant cliriach a chynllunio integredig.
- Cymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr sy'n oedolion, gan gynnwys cymorth ariannol, gofal plant, trafnidiaeth, ac opsiynau cyflenwi hyblyg.
- Gwell gallu o ran data a chynllunio, gan gynnwys rhagolygon demograffig a deallusrwydd lleol i lywio'r ddarpariaeth.

7 Her 5: Cystadlu a chydweithio

7.1 Yr hyn a ddywedodd y cyflwyniadau wrthym

Roedd cyflwyniadau'n cyflwyno cystadlu a chydweithredu fel tensiwn strwythurol wedi'i lunio gan gyllid, atebolrwydd ac amodau'r farchnad. Dywedodd llawer o ymatebwyr y gall cyllid sy'n seiliedig ar nifer y dysgwyr, cymhellion recriwtio a phwysau ariannol flaenoriaethu cynaliadwyedd sefydliadol yn hytrach na chynllunio ar y cyd, er bod rhai hefyd yn ystyried bod cystadlu'n cefnogi dewis ac ymateboldeb. Tynnodd cyflwyniadau sylw hefyd at bwysigrwydd gweledigaeth, arweinyddiaeth a data a rennir fel galluogwyr cydweithredu effeithiol, ochr yn ochr â'r angen i gydnabod rolau ar draws darparwyr, gan gynnwys AB a dysgu oedolion, o fewn modelau partneriaeth (FE, HE, WBL, RB, SO).

Pryder a welwyd dro ar ôl tro oedd y gall pwysau cystadleuol gyfrannu at ddyblygu, cydlynw gwannach a risgiau i ddarpariaeth ar gyfer carfannau fach, darpariaeth cost uchel neu ddarpariaeth sy'n strategol bwysig. Cysylltodd ymatebwyr y risgiau hyn â STEM, gofal iechyd, ieithoedd, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a mannau oer rhanbarthol, yn enwedig lle mae dysgwyr yn llai symudol neu lle mae'r ddarpariaeth yn gostus ei chynnal (RB, FE, HE, SCH, LA).

Gwerthfawrogwyd cydweithredu i gynnal darpariaeth arbenigol, ehangu mynediad a gwella dilyniant. Roedd yr enghreifftiau yn cynnwys trefniadau addysgu, dilysu a masnachfreinio a rennir, partneriaethau prentisiaethau gradd, gwaith cynllunio

cwricwlwm rhanbarthol a chyflenwi sy'n gysylltiedig â chyflogwyr (FE, HE, WBL, SCH, EI).

Fodd bynnag, roedd cyflwyniadau'n nodi bod cydweithredu'n anwastad a heb ei alluogi'n ddigonol. Roedd y rhwystrau a adroddwyd yn cynnwys cyllid tameidiog, gwahaniaethau llywodraethu, cyfyngiadau rhannu data, anghydnawsedd o ran yr amserlen a'r cwricwlwm, problemau trafnidiaeth, amser staff cyfyngedig, y gallu sefydliadol a'r arbenigedd arbenigol sydd ei angen i ddatblygu a chynnal cydweithrediad. Felly, roedd ymatebwyr yn pwysleisio'r angen am well cydlynw, data a rennir a chapasiti partneriaeth (HE, FE, WBL, LA, REG, RB).

Roedd bregusrwydd pynciau a risgiau mynediad rhanbarthol i'w gweld yn fwyaf amlwg mewn tystiolaeth gan ddarparwyr a chyrrff cynrychioladol. Roedd y rhwystrau gweithredol i gydweithredu yn fwyaf amlwg mewn cyflwyniadau yn ymwneud â chyflenwi gan y sectorau AB a Dysgu Oedolion yn y Gymuned, ysgolion a sefydliadau dysgu seiliedig ar waith/prentisiaethau, tra mai'r sector AU a chyrrff cynrychioliadol fu'n fwy tebygol o sôn am rhwystrau cyfreithiol a rhwystrau llywodraethu.

Dyma rai o'r uchafbwyntiau allweddol a welwyd ar draws y cyflwyniadau:

"Mae prifysgolion yn gweithredu mewn meddylfryd o gystadlu" Cyfrannwr o'r sector Addysg Uwch

"Mae cystadleuaeth yn goresgyn cydweithredu lle mae darparwyr yn ceisio diogelu eu hincwm" Cyfrannwr o'r categori Addysg Uwch

"... rydym yn gweithredu mewn amgylchedd cyllido cystadleuol nad yw'n annog nac yn hyrwyddo cydweithio" Cyfrannwr o'r categori Addysg Uwch

, "... nid yw rhai darparwyr yn rhoi cyngor ac arweiniad diduedd mewn ymgais i gadw eu dysgwyr." Cyfrannwr o Addysg Uwch

"...y system ariannu y pen yw'r rhwystr mwyaf i gydweithio, yn enwedig yn y sector 16-18." Cyfrannwr o Addysg Uwch

7.2 Themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg

- **Cymhellion cystadleuol:** ystyriwyd bod trefniadau cyllido ac atebolrwydd yn gwobrwyo recriwtio dysgwyr yn hytrach na chynllunio ar y cyd (FE, HE, WBL, RB, LA, SCH).
- **Cydweithio heb ei alluogi'n ddigonol:** roedd gweithio mewn partneriaeth yn cael ei werthfawrogi'n eang, ond wedi'i gyfyngu gan rhwystrau cyllid, llywodraethu, rhannu data a chapasiti, gan gynnwys yr angen am rolau

cliriach, atebolrwydd a rennir a threfniadau cyllido galluogi (FE, HE, WBL, RB, LA, REG, TS).

- **Darpariaeth anwastad a risg pynciau:** roedd cystadleuaeth yn gysylltiedig â phwysau ar bynciau carfan fach, cost uchel a phynciau strategol bwysig, gyda risgiau mynediad rhanbarthol (RB, FE, SCH, HE, REG).
- **Cydweithio a llwybrau dysgwyr:** roedd gweithio traws-sector yn gysylltiedig â mynediad ehangach, cyfnodau pontio llyfnach a llwybrau dilyniant cliriach (FE, HE, WBL, SCH, LA, EI).
- **Cydllynu a seilwaith a rennir:** gofynnwyd am waith cynllunio, llywodraethu, systemau data ac olrhain dysgwyr cryfach (RB, REG, LA, HE, FE).

7.3 Tensiynau wedi'u llywio gan dystiolaeth

- **Dewis yn erbyn cynllunio:** gall dewis ac ymateboldeb dysgwyr wrthdaro â'r ddarpariaeth a gynlluniwyd ar gyfer pynciau strategol ac anghenion y farchnad lafur.
- **Ymreolaeth yn erbyn stiwardiaeth:** mae ymreolaeth sefydliadol yn bodoli ochr yn ochr â galwadau am gydllynu cryfach ar lefel system.
- **Effeithlonrwydd yn erbyn gwytnwch:** gall lleihau dyblygu arbed adnoddau ond gallai wanhau mynediad.
- **Cydweithredu yn erbyn cystadlu:** gall cydweithio fod yn anodd lle mae cyllid a recriwtio yn parhau i fod yn gystadleuol.

7.4 Meysydd yn y cyflwyniadau sy'n cyd-fynd yn fras â'i gilydd

- Gall cydweithredu wella dilyniant, mynediad ac ehangder pynciau.
- Mae trefniadau cyllido ac atebolrwydd yn dylanwadu ar p'un a yw cydweithredu yn hyfyw.
- Efallai y bydd angen amddiffyniad neu gymorth bwriadol ar ddarpariaeth strategol a chost uchel.
- Mae angen gwella rhannu data ac olrhain dysgwyr.
- Mae rhwystrau strwythurol, yn hytrach na diffyg ewyllys da yn unig, yn aml yn cyfyngu ar gydweithio, gyda chyflwyniadau yn disgrifio modelau cyllido sy'n cymell cystadlu, systemau llywodraethu a data tameidiog, a gallu cyfyngedig ar gyfer cynllunio a chyflenwi ar y cyd.

7.5 Meysydd a awgrymwyd gan ymatebwyr i'w hystyried o ran polisi

Awgrymodd ymatebwyr ystod o ddulliau ymarferol, sy'n canolbwyntio ar y system:

- Alinio fframweithiau cyllido ac atebolrwydd â chanlyniadau a rennir a darpariaeth ar y cyd.
- Gwella rhannu data ac olrhain seilwaith system ar draws FE, HE a WBL.
- Cefnogi cyflenwi cydweithredol, dilysu, masnachfreinio, addysgu a rennir a modelau hybrid/digidol trwy ddarparu cyllid tymor hwy.
- Mynd i'r afael â rhwystrau gweithredol trwy fuddsoddi mewn amser staff a chapasiti partneriaethau wrth hefyd alinio amserlenni, fframweithiau cymwysterau a chalendrau academiaidd.
- Egluro fframweithiau llywodraethu a chyfreithiol ar gyfer cydweithio, gan gynnwys pryderon o ran cyfraith cystadlu lle bo hynny'n berthnasol.

Atodiadau mewn Dogfen ar Wahân

Atodiad A: Rhestr o sefydliadau/cyflwyniadau

Atodiad B: Llyfr Codau tagiau sector a newidynnau dadansoddi

Atodiad C: Llyfr Codau

Atodiad D: Methodoleg